ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 1 Cyfrol 13 Ionawr 2016

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

DIOLCH I MARI

Cardiau a luniwyd gan blant rhai o'r dosbarthiadau Ysgol Sul i'w hanfon at Mari Gwilym a fu'n eu diddanu yn y parti Nadolig.

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Ionawr 31	Parch. Geraint Lloyd Evans
Chwefror 7	Gweinidog *Cymun hwyr*
14	Parch. Hugh Pritchard
21	Gweinidog
28	*Undebol hwyr Penuel*
Mawrth 6	Gweinidog *Cymun bore*
13	Parch. Adrian P. Williams
20	Gweinidog *Oedfa deulu Sul y Blodau*
27	Pasg. Parch. Megan Williams
Ebrill 3	Gweinidog *Cymun bore*
10	Parch. William Davies
17	Gweinidog
24	Mr. Glyn Owen

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Ionawr 31	Alwyn Lloyd Ellis
Chwefror 7/14	Robat Roberts
21/28	John Wyn Jones
Mawrth 6/13	Gwyn Jones
20/27	Gwenno Pritchard
Ebrill 3/10	Cynthia Owen
17/24	Elin Walker Jones
Mai 1/8	Arfon Evans

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Ionawr 31	Arwyn Evans
Chwefror 7	Arwyn Evans
14/21	Geraint Hughes
28	Eirian Howells
Mawrth 6	Eirian Howells
13/20	Alwyn Lloyd Ellis
27	Robat Roberts
Ebrill 3	Robat Roberts
10/17	John Wyn Jones
24	Gwyn Jones
Mai 1	Gwyn Jones

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Ionawr 31	Gwenno Pritchard
Chwefror 7	Meira Jones
Chwefror 14	Astra Thomas
Chwefror 21	Manon Davies
Chwefror 28	Elizabeth Evans
Mawrth 6	Beryl Stafford Williams
Mawrth 13	Eleri W. Jones (Bedwyr)
Mawrth 20	Betty Thomas
Mawrth 27	Val P. Jones
Ebrill 3	C. Frazer Jones
Ebrill 10	Laura Lewis
Ebrill 17	Sioned Jones (Goleufryn)
Ebrill 24	Menna Baines
Mai 1	Enyd Roberts

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Hyfrydwch yw cael eich cyfarch ar ddechrau blwyddyn, a hynny gan ddymuno i chwi bob bendith a dedwyddwch yn ystod y misoedd sy'n dyfod. Ni wyddom beth a ddwg y dyfodol inni, ond sylweddolwn mai'r alwad Gristnogol yw ar i ni geisio ymateb i fywyd yn ei holl amrywiaeth gyda dyfalbarhad, graslonrwydd, gobaith a chariad. Y cyngor a dderbyniodd y Salmydd, ac yntau mewn helynt a thrallod, oedd ar iddo 'ddisgwyl wrth yr Arglwydd' (27:14) . Nid anogaeth i fod yn llonydd a digynnwrf oedd hynny, ond i fod yn obeithiol a chadarnhaol, gan adael i'r Un y gobeithiai ynddo ennyn hyder yn ei galon yntau.

Rydym ninnau sy'n aelodau o'r Eglwys heddiw angen gobaith. Yn ôl y ffigurau diweddaraf y mae yna fwy o aelodau eglwysi henaduriaeth Arfon mewn cartrefi gofal nag sydd dan ddeg ar hugain oed, ac eto fe gofiwn am waith rhieni ac athrawon yr ysgol Sul a'r ieuenctid ar gyfer y gwasanaethau Nadolig, ac ar hyd y flwyddyn. Gwerthfawrogwn yn fawr bresenoldeb y plant yn yr oedfaon yn gyson, ac mae CicBang yn dal i gyfarfod. Dyma sail i hyder a sylfaen i adeiladu arni, a mawr hyderaf y gallwn eto eleni wneud hynny gyda'n gilydd. Cofiwch fod bob amser groeso i syniadau newydd a sylwadau adeiladol ar fywyd yr eglwys, ac y mae'r bocs awgrymiadau yn dal wrth y drws yn disgwyl eich ymateb.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael neu'n llesg ar ddechrau blwyddyn, a chofiwn am y teuluoedd hynny sy'n hiraethu am anwyliaid. Mewn byd llawn cynnwrf , gweddïwn am heddwch ac am gyfiawnder, a chofiwn am y rhai sydd wedi dioddef o achos stormydd a llifogydd. Ar 4 Ionawr bu daeargryn mawr (6.7 ar raddfa Richter) yng ngogledd ddwyrain India pryd yr anafwyd llawer o bobl ac y collodd rhai eu bywyd. Gwnaed llawer iawn o ddifrod, a gwelir isod lun o eglwys Leimakhong oedd i fod yn gartref i gyfarfodydd Synod Manipur ddechrau Chwefror. Anfonwyd negeseuon o gydymdeimlad a chefnogaeth i Eglwys Bresbyteraidd India gan Lywydd y Gymanfa Gyffredinol, gan sicrhau ein brodyr a'n chwiorydd yno y byddwn yn eu cofio yn ein gweddïau, a bu i Adran y Chwiorydd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru anfon £2,000 o'u cyfrif argyfwng i gynorthwyo eglwys Leimakhong.

Y difrod i Eglwys Leimakhong

Boed i fawl a gweddi, dyfalbarhad a hyder nodweddu'n holl ymwneud ar hyd y flwyddyn.

Gyda chofion caredig,
Elwyn Richards

ADRODDIAD PWYLLGOR YR ADEILADAU

Dymuna aelodau Pwyllgor yr Adeiladau ddatgan eu diolch i Mr Emyr Griffiths, Gallt y Foel a Mr Dewi Llewelyn, 3 Bodlondeb, am eu gwaith fel Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Pwyllgor dros nifer helaeth o flynyddoedd. Bu'r ddau'n gweithio'n gydwybodol a thawel i sicrhau ein bod ni, aelodau Berea Newydd, i gyd yn glyd a diogel tra'n y Capel. Bellach, mae'r ddau wedi camu i lawr o'u swyddi ac wedi trosglwyddo'r awenau i aelodau eraill o'r Pwyllgor. Diolch o galon i'r ddau ohonynt.

BETH YW GWAITH PWYLLGOR YR ADEILADAU?
Efallai fod rhai ohonoch yn gofyn y cwestiwn yma o bryd i'w gilydd (neu efallai ddim, oherwydd tra bo popeth yn mynd yn ei flaen yn iawn, tuedd y natur ddynol yw cymryd pethau'n ganiataol a dim ond cwestiynu a gofyn "Pwy sy'n gyfrifol am …." pan fo rhywbeth yn mynd o'i le!). Wel, ym Merea Newydd mae gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu popeth o newid bwlb trydan i drefnu gosod paneli solar ar do'r adeilad.

Dyma sampl o'r math o bethau sydd angen eu gwneud mewn adeilad fel Capel Berea Newydd:

- Trefnu i weithwyr ddod mewn i drwsio unrhyw beth sydd wedi torri e.e. trydanwyr, plymwyr, adeiladwyr.
- Adnewyddu unrhywbeth sydd wedi mynd yn hen neu'n beryglus.
- Sicrhau fod rheolau tân yn cael eu dilyn gan drefnu i gwmni arbenigol ymweld yn rheolaidd i brofi'r system larwm a'r diffoddyddion tân sydd wedi eu lleoli o amgylch yr adeilad.
- Trefnu ymarferion gwagio'r adeilad petai tân yn ystod dyweder, gwasanaeth – hefyd, ymarferion gwagio'r adeilad pan fydd gwahanol sefydliadau'n ei ddefnyddio yn ystod yr wythnos.
- Sicrhau fod y larwm tân yn cael ei brofi'n wythnosol.
- Sicrhau fod y goleuadau argyfwng yn gweithio'n iawn.
- Mae'n debyg fod y rhai craff yn eich plith wedi sylwi ar y 'diogelwyr bysedd sydd wedi eu gosod ar ddrysau mewnol y Capel ers rhai wythnosau bellach. Trefnwyd i'w gosod wedi i fysedd ifanc un o aelodau'r Ysgol Sul gael eu dal a'u gwasgu gan un o'r drysau. Aw!!
- Gofalu am y tŷ sy'n eiddo i'r Capel yn Lôn y Deri. Trefnu'r pethau arferol sydd angen eu gwneud i gynnal a chadw tŷ (a'r ardd) gan gadw diogelwch y tenantiaid mewn cof drwy'r amser.
- Yn ddiweddar, penderfynodd y Blaenoriaid fynd ymlaen gyda'r syniad o osod paneli solar ar do'r Capel. Felly roedd rhaid anfon am brisiau gan wahanol

gontractwyr, trin a thrafod manteision/anfanteision paneli o'r fath a chysylltu â chwmni i fynd ymlaen hefo'r gwaith. Fel y gwyddoch, mae'r gwaith o osod y paneli eisoes wedi dechrau.Yn sgil hyn mae'n rhaid gofalu fod yr adeilad yn cael ei agor i roi mynediad i'r contractwyr yn y bore ac yna cloi ar eu holau ar derfyn dydd, gan sicrhau fod popeth yn ddiogel unwaith eto.

Dyna i chi felly olwg bras o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Bwyllgor yr Adeiladau. Cofiwch, mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn adeiladau ymuno â'r Pwyllgor - byddwn yn croesawu eich mewnbwn.

Gwrandewch allan am ddyddiad y cyfarfod nesaf!

HENADURIAETH ARBENNIG

Ofewn i Henaduriaeth Arfon mae is-bwyllgorau ac un o'r rheiny yw'r Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas. Droeon dros y blynyddoedd cododd un pwnc penodol sy'n poeni aelodau'r pwyllgor sef yr enghreifftiau a welir o ddiffyg cyfathrebu efo pobl fregus. Wrth ymweld â phobl mewn ysbyty, cartref gofal neu nyrsio a hyd yn oed yn eu cartrefi eu hunain gwelir pobl yn cael anhawster i ddeall y rhai sy'n gofalu amdanynt.

Wedi sylweddoli bod ymchwil manwl yn digwydd yn y Brifysgol ym Mangor ynglŷn â'r union broblem yma gwahoddwyd Gwerfyl Roberts, Uwch Ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, i gyflwyno rhai o ganlyniadau'r ymchwil i ni. Manteisiwyd ar y cyfle i agor y noson i bawb oedd â diddordeb a chafwyd cynulleidfa deilwng iawn.

Llywydd yr Henaduriaeth, y Dr. Gwyn Lewis, Caernarfon gymerodd y gwasanaeth dechreuol yn hynod o addas ar gyfer y cyfarfod oedd i ddilyn. Ef hefyd groesawodd Gwerfyl Roberts a dau aelod o'i thîm, Llinos Spencer ac Aaron Pritchard. Roeddynt wedi paratoi'n fanwl ar ein cyfer a chawsom esboniad o'u gwaith gyda lluniau a fideo.

Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau a chyfle hefyd i ychwanegu ein henwau at eu rhestr o bobl allai gynorthwyo'r ymchwil.

Manteisiwyd ar gyfle pellach i sgwrsio efo'r tri dros baned yn y festri.

Diolch i bob un ohonoch ymunodd â ni ar y noson a llawer o ddiolch i'r tri o'r Brifysgol.

GWASANAETHAU'R NADOLIG

Cafwyd dau wasanaeth arbennig y Sul cyn y Nadolig. Yn y bore roedd hi'n braf gweld chwech o bobl ifanc y capel, rhai'n ddisgyblion yn Ysgol Tryfan ac eraill bellach wedi gadael i ddilyn cyrsiau coleg fan hyn a fan draw, yn cymryd rhan mewn oedfa a oedd yn gyfuniad o ddarlleniadau, gweddïau, cerddi, ymsonau a charolau. Roedd y cyfan o dan arweiniad medrus Arfon Evans.

Yna yn yr hwyr tro'r plant iau oedd hi i ddathlu a gwnaethant hynny gyda'u brwdfrydedd arferol mewn gwasanaeth ychydig yn wahanol i'r arfer. Y thema eleni oedd y modd y dethlir y Nadolig mewn gwahanol lefydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar Gymru, yr Almaen a'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Cawsom gip ar y dathliadau yn y llefydd hyn, ddoe a heddiw, mewn cyflwyniadau llafar a cherddorol, a'r cyfan yn arwain at gyflwyniad o ddrama'r geni ei hun gan y plant lleiaf. Roedd y gwasanaeth hefyd yn tynnu sylw at ymgyrch Nadolig Cymorth Cristnogol a oedd eleni'n codi arian tuag at y gwaith sy'n digwydd mewn gwledydd fel Nigeria i geisio atal lledaeniad y clefyd malaria sy'n gymaint o broblem yno. Dyna oedd yn esbonio'r rhwyd mosgitos a oedd dros y crud ar ddechrau'r gwasanaeth. Codwyd swm teilwng iawn tuag at yr ymgyrch hon drwy'r casgliad a wnaed yn ystod y gwasanaeth.

Diolch i'r ieuenctid a'r plant am eu gwaith graenus, i'r athrawon a fu'n eu dysgu ac i'r band sy'n gymaint o gaffaeliad i wasanaeth yr hwyr bob blwyddyn.

Y rhai a gymerodd ran yng ngwasanaeth Nadolig y plant

PARTI NADOLIG YR YSGOL SUL

Yn dilyn yr holl waith caled ar gyfer y gwasanaeth Nadolig, roedd hi'n braf iawn i bawb gael ymlacio yn y parti Nadolig y noson ddilynol. Ar ôl i'r plant fwyta llond eu boliau o ddanteithion blasus, wedi'u paratoi gan rai o'r rhieni, daeth Mari Gwilym atynt i'w diddanu. Roedd yna hen chwerthin wrth i'r actores a'r ddiddanwraig fechan o Gaernarfon adrodd un stori ar ôl y llall, gan gynnwys stori'r Pedwerydd Gŵr Doeth. Yn wir, bydd gan y plant lyfr arbennig i gofio am ymweliad Mari Gwilym ac am y stori arbennig hon gan i Mari, cyn gadael, gyflwyno fersiwn T. Llew Jones ohoni yn rhodd i'r Ysgol Sul, a bu'n ddigon caredig i'w arwyddo hefyd inni. Yna roedd hi'n amser i Siôn Corn gyrraedd ac fe gafodd yntau y croeso twymgalon arferol wrth iddo rannu cynnwys ei sach fawr gyda'r plant i gyd. Aeth pawb adref yn hapus wedi noson hwyliog iawn. ***Mwy o luniau o'r parti ar y dudalen gefn***

CROESO 2016

Mae'r flwyddyn 2016 wedi agor "gyda Duw mewn mawl a chân".

Ar fore Sul cyntaf y flwyddyn cawsom oedfa Gymun dan ofal ein Gweinidog. Gyda'r hwyr trefnodd Ysgrifennydd yr Eglwys gyfarfod gweddi bendithiol. Clywsom hanes Moody (a gyfansoddodd emynau efo Sankey) ac anogaeth i ymateb i weddi emyn 805 – "Rho i mi nerth i wneud fy rhan i gario baich fy mrawd....."

Diolch i Gareth a Glyn a Gwyn.

Nos Fercher yn y festri parhawyd yn yr ysbryd defosiynol gyda phwyslais ar yr adnodau o Lyfr y Pregethwr – 'Y mae amser i bob peth.' Diolch i Gwawr Jones, Modlen Lynch a Sarah Jones am eu parodrwydd a'u hymroddiad.

Parhawyd i ddeisyf bendith ar y flwyddyn newydd ym mhregeth y Parchedig Cledwyn Williams y Sul canlynol. Cawsom hanes Nicodemus gan ddwyn i gof gyfieithiad y Canon Glyndwr Williams o'r emyn "Mi benderfynais i ddilyn Iesu.."..heb droi yn ôl.

Gweddïwn oll am nerth ac iechyd i ymroi i'r gwaith eleni.

Y DANBAID FENDIGAID ANN

ERIC JONES

ADOLYGIAD O DDEHONGLIAD THEATRIG O LYTHYRAU AC EMYNAU ANN GRIFFITHS – A BERFFORMIWYD YN GALERI, CAERNARFON, TACHWEDD Y 10fed 2015.

Pwy ohonoch tybed sydd yn cofio ein hymgais i lwyfannu sgript y diweddar Dr Dafydd Arthur Jones, o dan y teitl Henffych Fore? Llwyddodd pymtheg o'n haelodau, gyda chymorth yr unawdydd Marian Roberts o Frynsiencyn, a Chôr Merched y capel, i gyflwyno darlun byw iawn o'r emynyddes Ann Griffiths (1776 -1805). Tybed pa argraffiadau a adawodd y cyflwyniad hwnnw?

Sian Meinir yn perfformio yn Y Danbaid Fendigaid Ann yn Eglwys y Crwys, Caerdydd

Yn 1983 gwelodd Sian Meinir o Ddolgellau, berfformiad Brith Gof o *"Ann Griffiths"*. Gwnaeth dehongliad Lis Hughes Jones o waith Ann argraff ddofn arni, a llynedd daeth y ddwy ynghyd er mwyn ail ymgorffori'r cyflwyniad theatrig hwnnw. Defnyddiwyd *Archif Brith Gof* fel ffynhonnell ar gyfer y broses o gofio ac ail greu y gwaith, gyda'r bwriad o deithio led-led Cymru i'w gyflwyno o'r newydd.

Cantores opera yw Sian Meinir, ond yn ei chyflwyniad theatrig unigol cyntaf, dangosodd ei gallu anhygoel i ddefnyddio ei llais i ganu amrywiaeth o ganeuon gwerin yn ogystal ac emyn-donau. Dangosodd hefyd fod ganddi gof gwych a dawn llefaru a gadwodd y gynulleidfa (o tua naw deg mewn rhif), i glustfeinio ar bob gair am tua awr a hanner. Gwnaed defnydd cynnil o ddawns a symudiadau i lacio'r tyndra ambell dro. Yn y drafodaeth wedi'r perfformiad, cyfaddefodd fod y profiad o ail fyw a chyfleu angerdd dwys yr emynyddes wedi bod yn brofiad ysbrydol dwfn iawn iddi hithau. Yng nghapel Ifan Llannerch-y-medd y nos Sul blaenorol amlygwyd hynny yn ei dagrau.

Agorwyd y perfformiad gyda rhagymadrodd oedd yn cynnwys darnau o lythyrau Ann ei hun a gasglwyd gan O.M.Edwards, ac a gyhoeddwyd yn ei gyfrol *Gwaith Ann Griffiths, Cyfres y Fil* (1905). Tybed a fyddai amlinelliad syml o hanes Ann wedi bod o gymorth i lwyr werthfawrogi'r cynhyrchiad?

Ei geni Yn Nolwar Fach, Llanfihangel yng Nghwynfa, Sir Drefaldwyn, yn ferch i John a Jane Thomas, a fynychai eglwys y plwyf.

Ei hoffter o ysgafnder yn ei hieuenctid, ac yna'r dwyster, wedi iddi wrando ar bregethu Benjamin Jones, Pwllheli.

Ymuno â'r seiat Fethodistaidd ym Mhont Robert, a'i chyswllt â John Hughes, yr athro a'r pregethwr.

EI YMWELIADAU Â'R SASIYNAU YN Y BALA

Priodi John Griffiths, y ffarmwr o Meifod, ond bu farw'n naw ar hugain oed ar ôl geni ei gyntafanedig.

Diolch bod ei morwyn Ruth Evans wedi trysori ei hemynau ar ei chof, ac ar ôl ei phriodas â John Hughes fe'u cofnodwyd hwy ganddo.

Ofnaf ein bod yn cymryd gormod yn ganiataol, a bod y ffeithiau hyn yn ddieithr i lawer, yn enwedig y to iau. Gwelais ambell un o oed ysgol uwchradd yn bresennol. Byddai crynodeb o'i hanes hi ar y daflen wybodaeth a rannwyd cyn y perfformiad, wedi bod yn fwy defnyddiol na'r holl ddyfyniadau Saesneg.

Er hynny, llwyddwyd i gyfleu'r hyn oedd yn anos o lawer sef craidd profiadau ysbrydol dwys Ann ei hun. Ymdeimlai â'i phechadurusrwydd, cynnwrf a greai dyndra parhaus ynddi. Ni soniodd am gosb Duw ychwaith, dim ond ei dyhead dwfn i osgoi brifo ei Hanwylyd, trwy ei meddyliau annheilwng, hyd yn oed o'i gariad tuag ati. Tybed pa mor ddieithr heddiw yw geiriau fel 'gwaredigaeth' ac 'iachawdwriaeth', heb sôn am yr holl ddelweddau Beiblaidd eraill? Yn y Dosbarthiadau Derbyn dros y blynyddoedd sylwais bod ystyr y gair "angau" yn ddieithr i'r mwyafrif, heb sôn am eiriau mawr a phwysig Y Ffydd. Ond, os cafodd y perfformiad gwreiddiol gwefreiddiol ddylanwad ar Sian Meinir ifanc, pwy a ŵyr beth fydd ei ddylanwad y tro yma?

Gwnaed defnydd gwych o'r ychydig *brops* oedd ganddi, fel llusern, y Beibl, lliain bwrdd, y gadair, siôl, ei gwisg, drych arian a rhosynnau coch a gwyn. Trawiadol iawn oedd eiliadau o ddistawrwydd llethol y gynulleidfa ar ddiwedd y perfformiad cyn y fonllef o gymeradwyaeth haeddiannol. Yn y distawrwydd daeth ton o hiraeth trosof i, hiraeth amdanom fel cynulleidfa'n diweddu ein cyflwyniad ni flynyddoedd yn ôl gydag emyn 319.

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthrych teilwng o'm holl fryd,
Er mai o ran yr wy'n adnabod
Ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:
Henffych fore
Y caf ei weled fel y mae.

Fy ngweddi i yw y bydd gwaith gorchestol Sian Meinir yn cyflwyno'r *"Danbaid Fendigaid Ann"* yn creu hiraeth cyffelyb lel-led Cymru. Hiraeth am ganu ei hemynau a dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gwrthrych teilwng o'm holl fryd. Onid profiad cyfflelyb oedd un T H Parry Williams?

Llwyfan Galeri cyn y perfformiad

Hiraetha yntau am
'Gyfnewid holl
ddeniadau'r ddaear hon
Am ronyn o eneiniad
Ann a John.'

Beth am wahodd Sian atom ninnau i Fangor? Byddai tanbeidrwydd y Fendigaid Ann yn sicr o'n cyffwrdd. Dyma'r cyfeiriad www.sianmeinir.com

YR YSGRYTHUR AR NEWYDD - A CHWITHIG - WEDD

ERYL W. DAVIES

Adolygiad o'r fersiwn Cymraeg diweddaraf o'r Beibl.
BEIBL.NET

Cymdeithas y Beibl, £14.99, clawr caled (allan o stoc)

Rhaid i mi yn gyntaf oll ddiolch i olygyddion *Ichthus* am y gwahoddiad i sgrifennu ychydig sylwadau ar beibl.net a ymddangosodd am y tro cyntaf yn 2015 ar ffurf cyfrol brintiedig. Rhaid imi gydnabod nad oeddwn wedi darllen beibl.net ar y we cyn derbyn y gwahoddiad, ac nad oeddwn, ychwaith, yn berchen copi clawr caled ohono, ond bûm yn ddigon ffodus i gael benthyg copi gan gyfaill er mwyn sgrifennu'r adolygiad hwn.

Mae'n amlwg fod beibl.net wedi profi'n dra phoblogaidd, gan i dair mil o gopïau gael eu gwerthu – sef y cyfan o'r argraffiad cyntaf – hyd yn oed cyn i'r gyfrol ei hun gael ei chyhoeddi. Er nad enwir neb yn benodol yn y Rhagair y mae'n hysbys i bawb, bellach, yn sgil yr holl gyhoeddusrwydd a gafodd y fersiwn hwn o'r Beibl yn y wasg ac yn y cyfryngau, mai Arfon Jones (un a fu'n gyd-fyfyriwr â mi yn y Brifysgol ym Mangor ers llawer dydd) a fu'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod y fersiwn hwn, sy'n anelu at gyflwyno'r Beibl mewn iaith fyw, ystwyth, fodern, yn cael gweld golau dydd. Beth, felly, sydd i'w ddweud am y fersiwn newydd hwn o'r Ysgrythur?

Rhaid imi gyfaddef fy mod wedi cael fy syfrdanu – hyd yn oed cyn imi ddarllen yr un adnod o'r fersiwn hwn – gan eiriau a welir ar ddechrau ail baragraff y Rhagair, oherwydd fe ddywedir yno yn gwbl glir a diamwys bod beibl.net 'yn gyfieithiad o'r ieithoedd gwreiddiol'. Yn awr, ystyrier hyn: fe gymerodd banel o ysgolheigion mwyaf blaenllaw ein gwlad, a oedd yn arbenigwyr cydnabyddedig ar yr ieithoedd Beiblaidd, chwarter canrif i baratoi'r Beibl Cymraeg Newydd, ac fe'n gwahoddir yma i dderbyn bod un unigolyn yn gweithio ar ei liwt ei hun wedi cyfieithu pob gair o'r Hen Destament yn uniongyrchol o'r Hebraeg (neu'r Aramaeg), a phob gair o'r Testament Newydd o'r Roeg, a hynny mewn cwta ddwy flynedd ar bymtheg! Efallai fy mod yn gwneud cam dybryd â'r sawl a fu ynglŷn â'r fersiwn hwn o'r Beibl, ond rhaid imi gydnabod ei bod yn haws o lawer gennyf i feddwl mai rhydd-gyfieithiad o rai o'r fersiynau 'poblogaidd' Saesneg sydd yma (er y gwedir hynny'n bendant yn y Rhagair) yn hytrach na

chyfieithiad newydd, uniongyrchol o'r testun gwreiddiol. Yn ddiddorol, ni chrybwyllir yn y Rhagair pa fersiwn o'r testunau Hebraeg a Groeg a ddefnyddiwyd – fel pe na bai hynny o unrhyw bwys! Mae arnaf ofn fod y sinig ynof yn gorfod gofyn: os yw cyfieithydd beibl.net yn gymaint o arbenigwr ar yr ieithoedd gwreiddiol, pam na wahoddwyd ef i fod yn un o aelodau panel yr Hen Destament neu'r Testament Newydd a fu wrthi'n paratoi'r Beibl Cymraeg Newydd?

Mae'n amlwg mai amcan beibl.net yw cyflwyno'r Ysgrythur mewn iaith fyw, lafar, ond yn fy marn i mae'r Gymraeg yn swnio'n chwithig iawn ar brydiau. Ystyrier Ioan 1:8: 'Dim Ioan ei hun oedd y goleuni' neu Ioan 1:19 'Dim fi ydy'r Meseia'. Beth sydd o'i le mewn dweud 'Nid Ioan' a 'Nid fi'? Neu yn y Deg Gorchymyn: 'paid llofruddio', 'paid dwyn'. Beth sydd o'i le mewn dweud 'paid â llofruddio' a 'paid â dwyn'? Cymharer fersiwn y BCN o Habacuc 1:2: 'Am ba hyd ... y llefaf arnat, "Trais!" a thithau heb waredu?' â beibl.net: 'Dw i'n gweiddi "Trais!" ond ti ddim yn achub'. Trwy geisio gwneud yr iaith yn fwy 'modern' y mae beibl.net wedi agor y llifddorau i eiriau Saesneg wedi eu Cymreigio lifo i mewn i'r testun: 'gwerthu'r cwbl lot' (Luc 15:13); 'gallu ei drystio fe'n llwyr' (Num. 12:7); 'plîs paid' (Num. 12:11); 'siafio'r gwallt … trimio'ch barf' (Lef. 19:27); 'dan fflag eu llwyth' (Num. 2:2). Ystyriwch, o ddifrif, pa fersiwn o Lef. 15:2-3 y dymunech ei glywed o'r pulpud ar fore Sul:

BCN: 'Pan fydd gan unrhyw un ddiferlif yn rhedeg o'i gorff, y mae'n aflan. Dyma fydd y gyfraith ynglŷn â'i aflendid o achos diferlif. Pa un bynnag a yw'n parhau i redeg o'i gorff ynteu a yw wedi ei atal, y mae'n aflendid'.

Beibl.net: 'Pan mae dyn yn diodde o glefyd ar ei bidyn, mae'n ei wneud e'n aflan. Gall yr aflendid fod yn ddiferiad cyson, neu rhyw rwystr sy'n ei gwneud yn anodd iddo biso'.

Y broblem gyda beibl.net yw nid yn unig nad yw'n parchu orgraff yr iaith Gymraeg nac yn cymryd fawr sylw o iaith gynhwysol ond, yn aml, nad yw'n parchu testun yr Hebraeg gwreiddiol. Mae'n wir bod yr Hebraeg yn medru bod yn ailadroddus (hyd at syrffed ar brydiau!) ond sut ellid cyfiawnhau penderfyniad beibl.net i hepgor yn gyfan gwbl adnodau sy'n tueddu i'w hailadrodd eu hunain? Er enghraifft, y mae Num. 4:34-48 wedi ei dalfyrru i'r fath raddau fel nad yw'r rhan fwyaf o'r testun Hebraeg yn ymddangos o gwbl!

Peidied neb â'm camddeall. Nid dweud yr wyf nad oes angen am fersiwn o'r Beibl mewn iaith lafar, fyw, ond y mae'r fath beth â iaith lafar safonol, ac yn sicr nid dyna a geir yn y fersiwn hwn o'r Ysgrythur. Os ydym am ymgymryd â menter sy'n mynd i barhau am ddwy flynedd ar bymtheg, yna o leiaf gadewch inni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y peth yn iawn. Cydbnabyddir yn y Rhagair na fydd y fersiwn hwn 'at ddant pawb', a dichon y bydd rhai'n ei groesawu'n llawen ac yn ymfalchïo bod ganddynt yn eu meddiant fersiwn arall o'r Beibl yn eu hiaith eu hunain. Ond gwell i mi ymdawelu, a chyflwyno fy nghopi yn ôl i'm cyfaill, gyda mawr ddiolch iddo am gael ei fenthyg.

BUGAIL A LLAWER MWY

ERIC JONES

Adolygiad o lyfr sy'n dadlennu llawer am fyd a bywyd yr amlycaf o Gymry Lerpwl heddiw.
DI-BEN-DRAW: HUNANGOFIANT D. BEN REES

Gwasg Y Lolfa, £12.99



Wrth edrych ar glawr y llyfr buasech yn taeru mai esgob yw D. Ben Rees ac yntau'n gwisgo ei grys coch clerigol, ond gweinidog diarbed ei ymroddiad ydyw, a ddechreuodd wasanaethu Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn Abercynon a Phenrhiw-ceibr yn 1962, cyn derbyn yr alwad i eglwys Bethel, Heathfield Rd., (neu Maescrug yn y Gymraeg) Lerpwl, yn 1968. Erys yno'n weinidog rhan-amser, ers ei ymddeoliad yn 2007.

Mae'n edrych yn borthiannus a bonheddig tu hwnt yn ei siwt pin streip, ond ymfalchïo i 'mab i labrwr o'r dosbarth gweithiol' ydyw. Tynnwch y goler gron o'r llun, a gallai fod yn Aelod Seneddol blaenllaw. Bu'n ymgeisydd gyda'r Blaid Lafur ddwy waith yn etholaeth Conwy, ond fe'i trechwyd gan y diweddar Syr Wyn Roberts. Arhosodd yn aelod o'r Blaid Lafur ers dros 60 o flynyddoedd. Mae'n cyfaddef oni bai am yr alwad i Lerpwl, byddai wedi "cyrraedd canolfannau'r byd teledu neu goridorau Tŷ'r Cyffredin". Dangosodd barch mawr at Gymreictod a Phlaid Cymru trwy'r gyfrol, ond a oedd yn gweld bod ganddo well siawns i gyrraedd Tŷ'r Cyffredin gyda'r Blaid Lafur?

A beth am y teitl gwylaidd *Huangofiant D. Ben Rees*? Gallai fod wedi ychwanegu o leiaf Parchedig, Dr ac Athro. A beth am ei raddau? Mae ganddo fwy o'r rheiny nag sydd ar thermomedr! (wele'r *Blwyddiadur*). A beth am y *Di-Ben-Draw*? Mae'n deitl mor addas oherwydd mae'n ddisgrifiad o'i lafur di-ben-draw, a hynny fel pregethwr a gweinidog diflino ei ofal, caplan ysbytai a charchar, Ysgrifennydd ei Henaduriaeth a llu o bwyllgorau, darlithydd, academydd, cymdeithasegwr, hanesydd, casglwr llyfrau (mae ganddo lyfrgell breifat o dros 20,000 o lyfrau) a lluniau, teithiwr byd, (e.e.bu yn Israel ugain o weithiau), cyhoeddwr ac ymgyrchwr gwleidyddol.

Y DYLANWADAU

Ganwyd ef yn nhŷ fferm Abercarfan cyn i'r teulu symud i bentref Llanddewibrefi. Yn yr oedfa Ddiolchgarwch o dan weinidogaeth ysbrydoledig Y Parch Tom Nefyn Williams y penderfynodd D. Ben Rees gyflwyno ei fywyd " .. i wasanaethu Duw a bod yn was i'r Arglwydd Iesu". Aeth ei dad ag ef i ymgyrchoedd

gwleidyddol, a chlywodd araith y Capten Roderick Bowen, y Rhyddfrydwr, yn lladd ar Sosialaeth adeg etholaid 1945, a dyma a'i gyrrodd i fod yn Sosialydd i'r Chwith. Adrodda am ei athrawon wrth eu henwau, yn yr ysgol gynradd ac uwchradd. Dyweda fod y ddarpariaeth ar gyfer dysgu Ysgrythur yn ysgol y Sir, Tregaron, yn gywilyddus. Diolch ei fod wedi cael ei gyflwyno felly i'r Ysgrythurau yn y capel. Onid oes yna wers bwysig iawn i ni yn y fan yma?

Bu'n ymgyrchu'n frwd yn ystod ei gyfnod yn y Brifysgol yn Aberystwyth ac wedi hynny yng Ngholeg Diwinyddol ei enwad yn yr un dref. Cychwynnodd y cylchgrawn *Aneurin*, a llawer mwy, a bu'n selog dros CND a Chymdeithas y Cymod, gan ymgyrchu hefyd yn erbyn crogi, a hynny'n dilyn dienyddiad Ruth Ellis yn 1955. A oedd hi'n syndod bod yr Athro David Williams o'r adran Hanes Cymru wedi galw'r Myfyriwr Diwinyddol a'r Sosialydd ifanc diwyd yn 'Mr Toublemaker'?

Y FUGEILIAETH

Dadlennol iawn yw ei ddarluniau o'r maes bugeiliol yn y ddwy Ofalaeth. Cawn ddisgrifiadau dirdynnol ohono'n benthyg rhaw gan lôwr tra'n chwilio am gyrff yr athrawon a'r plant yn Aberfan yn Hydref 1966. 'Trychineb nid o law Duw ond o waith dynion ydoedd', meddai. Hoffais ei deyrngedau i nifer o flaenoriaid amlwg ac abl, ac hefyd i Evan Roberts a'i briod, a deithiodd 57 o flilltiroedd i gael oedfa Gymraeg, wedi i'w capel gau yn Blackburn. Cofiwch ei fod yn cyfeirio at rai sy'n agos atom ym Merea Newydd sef Y Parchedigion Cledwyn Williams, E Peris Owen (cefnder un o'n blaenoriaid) Ifor a Mair Oswy Davies, Evan Lynch a'r Dr Bruce Griffiths ac eraill yr ydym yn eu hadnabod yn dda.

Geilw ei hun yn Galfinydd, ac iddo ef yr Arglwydd Iesu yw'r Dioddefwr, yr Heddychwr a'r Gwaredwr personol, a dyna sylfaen y traddodiad efengylaidd a chymdeithasol a etifeddodd. Pregethodd mewn 1,012 o wahanol gapeli ac eglwysi, ond a fu ym Merea Newydd tybed?

Loes iddo oedd i'w enwad ei hun a'r enwadau eraill anwybyddu ei ddadansoddiad cymdeithasegol o ddirywiad Ymneilltuaeth yn ei gyfrol. *Chapels in the Valley: A Study in the Sociology of Welsh Nonconformity.* Faint o help a fu'r astudiaeth iddo yn Lerpwl tybed? Beth yw'r 'feddyginiaeth' y cyfeiria ati?

Y CYMRO A'R SGOWSAR

Wedi cyrraedd ei Ofalaeth gyntaf yn Abercynon cychwynnodd wasg *Y Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf*, ac yn ystod ei gyfnod yn Lerpwl mentrodd gychwyn *Cwmni Recordiau'r Ddraig,* a chyda'r cwmni hwn y recordiodd y Tebot Piws eu caneuon am y tro cyntaf. Defnyddiodd y cwbl i hyrwyddo ei genhadaeth dros yr Efengyl a thros Gymreictod.

Trwy ddarllen y gyfrol gyfoethog hon y deuwn i adnabod yr un sy'n galw ei hun yn Gymro a Sgowsar. Mae'n mynegi ei siom fod llawer o'r rhai a weithiodd yn galed i'w paratoi'n gyflawn aelodau, wedi cefnu ar y capel a'r Gymraeg. Mae'n falch fod ei ddau ŵyr yn mynychu'r eglwys yn Harpenden ond sylwaf nad yw'n sôn am siarad y Gymraeg yn ei gynghorion iddyn nhw. Dywed yn onest bod gwrth

Gymreictod yr Aelod Seneddol Leo Absey yn wrthun iddo, ac y byddai'n gwrido pan fyddai y Dr Alan Williams AS yn pardduo Plaid Cymru. Rhoddodd bwniad iawn i Dr Robyn Lewis hefyd am sefyll yn erbyn i'r Steddfod Genedlaethol gael mynd i Lerpwl, oherwydd Tryweryn. Cenedlaetholdeb cul a diffyg parch at y rhai oedd wedi brwydro dros Gymreictod yn Lerpwl oedd peth fel hyn meddai. Does dim gofod yma i restru ei holl ymdrechion glew i ddiogelu hanes a pharhad Cymreictod yn Lerpwl, megis dadorchuddio cofeb i arwyr y *Mimosa* ger *Doc Princes* y llynedd. Darllenwch y gyfrol i chi gael rhyfeddu fel finnau.

MWY O GWESTIYNAU

Mae'n hallt ei feirniadaeth o'i enwad am ei orfodi i ymddeol. Onid oes yna beryglon yn y sefyllfa newydd, oherwydd gall gweinidog anwybyddu oed ymddeol erbyn hyn? Cawn ystadegau Heathfield Road yn 1968 a llun o'r hen gapel. Tybed beth yw'r ystadegau erbyn hyn? Pam na chawsom lun o'r capel newydd? Dyma'r unig gartref ysbrydol Cymraeg bellach yn Lerpwl. Pam na chawsom lun o'i benddelw, o wneuthuriad y dawnus John Meirion Morris? Cyfeiria at aml i lyfr a gyhoeddodd, a thrueni na fyddai rhestr gyflawn, gronolegol ohonyn nhw o fewn y gyfrol.

Wedi darllen 16 o benodau o'r gyfrol hynod ddifyr a dadlennol hon, erys y cwestiwn pwysicaf, sut y gallodd Ben gyflawni'r holl orchestion? Y mae'n cydnabod ei ddyled enfawr i'w briod, Meinwen, a'r meibion Dafydd a Hefin am eu holl gefnogaeth iddo yn ei weinidogaeth. Datgana hefyd ei ffydd yn Nuw, ac oni wnaeth wireddu geiriau testun un o'i bregethau prawf cynnar, o broffwydoliaeth Eseia?

'Y mae'r ifanc yn diffygio ac yn blino, a'r cryfion yn syrthio'n llipa, ond mae'r rhai sy'n disgwyl wrth yr Arglwydd yn adennill eu nerth, maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino ac yn rhodio heb ddiffygio…..'

Diolch am y gwaith di-ben-draw Ben a diolch o galon am y gyfrol hon.

ANGEN HELP YN YR YSGOL SUL

Mae arnom angen gwirfoddolwyr i helpu yn yr ysgol Sul. Hoffem gael o leiaf un athro neu athrawes reolaidd i fod ar rota (e.e. dysgu bob yn ail Sul) a byddai hefyd yn dda cael cymorth pobl sy'n fodlon cymryd dosbarth yn achlysurol pan nad yw'r athrawon rheolaidd ar gael. Mae'n waith difyr a gwerth chweil – mae llawer o hwyl ac ysbrydoliaeth i'w gael yng nghwmni plant Berea Newydd!

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Menna Baines (01248 364522)

YNYS CIWBA

GWENNO PRITCHARD

Dydd Mercher, Tachwedd 4ydd, daeth Mr Gwyn Hefin Jones o Frynrefail, i gyfarfod o Gylch Chwiorydd, i sôn am ei wyliau ar Ynys Ciwba.

Ciwba ydi'r ynys fwyaf ym Môr y Caribi. Mae ganddi boblogaeth o 11 miliwn, gyda 2 filiwn yn byw yn y brifddinas Havana. Mae gan ynys Ciwba draethau glân, bryniau gwyrdd, coedwigoedd sydd yn cynnal bywyd gwyllt cyfoethog, rhaeadrau dyfriog, mynyddoedd urddasol, a dinasoedd bywiog. Pob dim sydd ei angen i ddenu ymwelwyr.

Darganfu Christopher Columbus ynys Ciwba yn 1492. Cyn hynny, llwythi brodorol oedd yn trigo yno, ond fe'u dilewyd o fewn pum deg mlynedd. Daeth y Sbaenwyr a ddilynodd Christopher Columbus i Ciwba, a phlanhigion siwgr gyda hwy i'w plannu ar yr ynys, ac yn ddiweddarach daeth caethweision o Affrica i weithio yn y planhigfeydd siwgr. Mae dylanwad y bobl yma ar ddiwylliant ynys Ciwba hyd heddiw. Sbaeneg yw iaith swyddogol yr ynys, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn Gatholigion.

Ar ôl 1901, yn dilyn gwrthryfel, daeth Ciwba o dan reolaeth America, ond roedd rheolaeth llym a chreulon o dan arweiniad y cadfridog Batista. Yna yn 1959, yn dilyn mwy o wrthryfela, daeth Fidel Castro yn brif weinidog Ciwba. Roedd Fidel Castro yn hanu o deulu cefnog a oedd yn berchen ar blanhigfa siwgr, ond fe benderfynodd sefydlu llywodraeth sosialaidd ar yr ynys. Roedd yr ynys yn dlawd, gyda chyflogau isel, ond gyda gwasanaeth iechyd da iawn, a thai a lloches i bawb. Ar ôl hynny, pellhaodd yr Unol Daleithiau oddiwrth Ciwba, gan roi terfyn ar unrhyw fasnachu. Arhosodd Ciwba yn ei hunfan gydag adeiladau yn dirywio, a llawer o hen geir Americanaidd ar y strydoedd.

Erbyn hyn Raul Castro yw'r llywydd. Mae mwy o gysylltiad a masnach gydag America, ac mae cryn newid yn sefyllfa Ciwba yn debygol. Mae llawer iawn o ymwelwyr yn awyddus i ymweld â Chiwba, cyn i bethau newid yn ormodol.

Eleni merched Ciwba sydd yn gyfrifol am baratoi gwasanaeth Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd, a gynhelir Ddydd Gwener, Mawrth 4ydd.

Eglwys Gadeiriol Hafana

Y DDARLITH DAVIES

Y FERCH YN Y BEIBL

Nos Iau 26 Tachwedd 2015 cawsom gwmni'r Parchg Megan Williams Porthaethwy yn y seiat, pryd y bu'n sôn am y darlun o Efa yn Llyfr Genesis. Sylfaenodd ei sylwadau ar y ddarlith a draddododd yn y Gymanfa Gyffredinol fis Gorffennaf diwethaf, a dyma oedd ymateb y Dr W. Gwyn Lewis, Seilo i'r ddarlith honno;

Y Parch Megan Williams yn cyflwyno'r Ddarlith Davies

Her o fath gwahanol a gafwyd gan y Parch Megan Williams, Porthaethwy, wrth iddi gyflwyno'r **Ddarlith Davies** (a draddodir yn flynyddol gan un o weinidogion y Cyfundeb). Yn arwyddocaol iawn - gan mai hi yw'r ferch gyntaf i draddodi'r ddarlith mewn cant ac ugain o flynyddoedd - dewisodd destun addas ac amserol iawn, sef *'O'r cysgodion - golwg feirniadol ar ddarlun y Beibl o'r ferch'*. Mewn chwip o ddarlith hynod feistrolgar, olrheiniodd y lle eilradd sydd i'r ferch yn yr ysgrythurau, gyda'r canlyniad bod hynny wedi dylanwadau ar agwedd yr eglwys a chymdeithas yn gyffredinol tuag ati ar hyd y canrifoedd a chawsom ein hatgoffa pa mor ddibynnol yw ein heglwysi heddiw ar wasanaeth a ffyddlondeb merched - er bod tuedd o hyd iddynt gael eu hystyried fel 'ceidwaid y cwpwrdd llestri' yn unig ! Hoeliodd ein sylw o'r cychwyn trwy ddangos darlun adnabyddus Rembrandt o'r Mab Afradlon: yn cuddio, fel cysgod, yn y cefndir mae merch - y fam, mae'n debyg - ond doedd hi ddim yn bwysig yn y stori. Fel eiddo i ddynion yr ystyrid merched, a byth ers y rhagfarnau lu yn stori Gardd Eden mae angen newid persbectif wrth ddarllen y Beibl ac ailddarganfod pwysigrwydd y merched a anwybyddwyd yn y storïau cyfarwydd - merched megis Phoebe a Priscilla a oedd yn pregethu, addysgu a gweddïo'n gyhoeddus yng nghyfnod yr Eglwys Fore. Wrth ddyfynnu un o'r diwinyddion ffeministaidd, meddai Megan Williams: 'mae cael cydraddoldeb i ferched yn y Beibl fel dyn du yn gofyn am hynny yn y Ku Klux Klan!' Dyna osodiad herfeiddiol! *(allan o Gofnodion Henaduriaeth Arfon, Hydref 2015)*

Y GORNEL WEDDI

HALEN Y DDAEAR



Fel pob blwyddyn arall roedd yr wythnos 18fed – 25ain o Ionawr yn Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol. Eglwysi Latfia gynhyrchodd y deunydd eleni. Mae'r eglwys yn Latfia yn cynnwys Yr Eglwys Uniongred, Yr Eglwys Babyddol a'r Eglwys Brotestanaidd/Lutheraidd – mae ceisio bod yn Un yn bwysig yno.

Efeilliwyd gwahanol eglwysi a chapeli Bangor efo'i gilydd i gynnal gwasanaethau a grwpiau trafod.

Gadewch i ni fyfyrio ar rai o'r gweddïau lefarwyd yn ystod yr wythnos:

Arglwydd Iesu, Arglwydd cyfanrwydd,
mae dy weddi am undod ymhlith dy ddisgyblion
wedi syrthio ar glustiau byddar a chalonnau caled.
Maddau i ni ein clustiau byddar, caeedig,
Maddau i ni ein calonnau caled sy'n cynnal amheuaeth, rhagfarn a rhaniad:
Maddau i ni ein cenhadaeth doredig.
Agor ein calonnau, ein llygaid a'n meddyliau
i'th gariad a'th wirionedd o fewn yr holl bobl Gristnogol
a chryfha ynom y penderfyniad i weithio
er mwyn adfer undod dy Eglwys a'th greadigaeth
er gogoniant i'th enw.
Amen

Dduw Grasol,
Trawsffurfia ein calonnau,
ein teuluoedd,
ein cymunedau a'n cymdeithas.

Ddŵr bywiol
torra'r syched sy'n bodoli yn ein cymdeithas,
y syched am urddas, am gariad,
am gymundeb a sancteiddrwydd.

Ysbryd Glân,
ysbryd llawenydd a hedd,
iachâ'r ymraniadau sy'n cael eu hachosi
gan ein camddefnydd o rym ac arian,
a chymoda ni ar draws gwahanol ddiwylliannau ac ieithoedd.
Una ni fel plant Duw.

Drindod o gariad,
arwain ni allan o dywyllwch
i mewn i'th oleuni rhyfeddol.

Gwna dy holl bobl yn sanctaidd a'u gwneud yn un yng Nghrist. Amen.

Y GYMDEITHAS

Pan fu Mrs. Enid Griffiths efo ni rai troeon o'r blaen cerddoriaeth cyfansoddwyr Ewrop fu ganddi dan sylw. Ond yr Hydref hwn daeth y trywydd yn nes adref. Cerddoriaeth Cymru gawsom ni mewn noson ddifyr iawn a gwahanol. A ninnau'n eistedd mewn hanner cylch o gwmpas y piano roedd agosatrwydd yn cynhesu'r awyrgylch.

Ar y dechrau pwysleisiodd Mrs. Griffiths werth cynghanedd pedwar llais emyn-donau Cymreig a'u harmonïau celfydd. Gresynai'n fawr pa mor anaml y clywir cynghanedd mewn canu cynulleidfaol heddiw. Canodd emyn-donau cryf a hyderus i ni ar y piano.

Yna cawsom amrywiadau ar *Sosban Fach* - pa alaw arall i wraig o Lanelli, yntê? Roedd hi wedi cyfansoddi'r amrywiadau hyn a rhai ar *Bant Corlan yr Ŵyn* pan oedd hi'n fyfyrwraig yn y coleg.

Ein tro ni oedd cymryd rhan wedyn mewn cwis oedd wedi'i baratoi'n fanwl i gynnwys degau o alawon cyfarwydd. Aethom ar daith trwy Gymru, o'r Fflint i Fôn i Aberystwyth ac yna ar fferm lle'r oedd llaweroedd o anifeiliaid. Cododd un tîm i'r brig yn fuddugoliaethus wedi adnabod nifer fawr o'r cliwiau.

Brysiwch yma eto, Mrs. Griffiths.

SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
IONAWR 24	139 Cai Aron	29 Ela Vaughan Roberts
IONAWR 31	395 Daniel Jones	149 Alys McCann
CHWEFROR 7	393 Sion Steffan	94 Owain Edwards
CHWEFROR 14	396 Fflur Edwards	85 Catrin Edwards
CHWEFROR 21	349 Bedwyr Williams	113: 1–4 Llio Eurgain
CHWEFROR 28	405 Rhys Roberts	193 Gwen Roberts
MAWRTH 6	681 Beca Roberts	100 Eleri Roberts
MAWRTH 13	798 Owain Gwynn	67 Iolo Evans Jones
MAWRTH 20	Oedfa deulu Sul y Blodau	
Gwyliau ysgol	27 Mawrth, 3 Ebrill a 10 Ebrill	
17 EBRILL	391 Efa Huw Williams	84 Siwan Huw Williams
24 EBRILL	416 Alaw Sion	148 Ifan Sion

Diolch yn fawr am eich cyfraniad.

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Kathy - kathysion@btinternet.com neu 364957. Diolch.

Y DIGWYDDIADUR

IONAWR	
Llun 25ain, 7yh	Henaduriaeth Arbennig yn Seilo
CHWEFROR	
Mercher 3ydd, 2yp	Y Chwiorydd - sgwrs ar Antur Waunfawr
Iau 11eg	Y Gymdeithas - Dilwyn Morgan
Mawrth 23ain, 1.30yp	Cyfarfod yr Henaduriaeth yn Eglwys Caeathro
MAWRTH	
Mercher 2il, 7yh	Y Chwiorydd - "Lle/Ardal" gyda Manon Davies, Delyth Williams, a Menna Baines.
Iau 10fed	Y Gymdeithas - Swper Gŵyl Ddewi

OES GENNYCH CHI SYNIAD, SYLW, LLUN NEU UNRHYW GYFRANIAD YR HOFFECH EI RANNU GYDA DARLLENWYR *ICHTHUS*? FE FYDD Y RHIFYN NESAF YN CAEL EI GYHOEDDI AR Y 24ain O EBRILL

E-BOST: *gdeiniol@hotmail.com*
LLYTHYR: *4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LY*
***neu** cysylltwch gyda'g un o swyddogion y capel*

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

PARTI NADOLIG YR YSGOL SUL

Uchod ac isod: Rhai o'r plant yn mwynhau'r Parti Nadolig

Dde: Mari Gwilym yn diddanu gyda'i straeon